**Rhif: 3**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C21/0257/03/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **12/05/21** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Ffestiniog** |
| **Ward:** | **Bowydd a Rhiw** |
| **Bwriad:** | **Newid defnydd maes parcio presennol yn depo bws** |
| **Lleoliad:** | **Maes Parcio Tan y Grisiau** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATAU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae hwn yn gais ar gyfer creu depo newydd ar gyfer gwefru bysiau gyriant trydan trwy osod arwyneb bitwminaidd ar safle a ddefnyddir yn bresennol fel maes parcio anffurfiol lle mae cyfleusterau ail-gylchu cymunedol wedi'u gosod ynghyd a pholyn dal cyfarpar cyfathrebu. Fe fyddai'r datblygiad yn cynnwys:

- Cyfleusterau ar gyfer gwefru 6 cerbyd trafnidiaeth cyhoeddus
- Chwe gofod parcio ar gyfer staff
- Codi adeilad ar gyfer staff – fe fyddai hwnnw'n adeilad 12m x 4m o arwynebedd llawr a 3.6m o uchder gyda chladin pren a tho fflat.
- Ehangu'r arwynebedd gwastad ar y safle trwy dyllu i'r llethr ar ochr ddwyreiniol y safle a chodi wal gynnal 1.5m o uchder.
- Codi ffens 2m o uchder o amgylch y safle a gosod camerâu cylch cyfyng a goleuadau diogelwch
- Gwaith draenio tir

1.2 Mae hwn yn safle tir llwyd ar gyrion, ond oddi mewn i, ffin ddatblygu Canolfan Gwasanaeth Trefol Blaenau Ffestiniog. Saif gerllaw'r ffordd ddosbarth 3 sy'n arwain o'r A470 at bentref Tanygrisiau. Mae rhan ddwyreiniol y safle yn ymestyn i mewn i safle'r cyn cae chwarae a glustnodwyd ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (safle T23). Mae'r rhan fwyaf o'r safle hefyd o fewn Parch Llifogydd C2 fel y'i hadnabyddir gan y "Mapiau Cyngor ar Ddatblygu" sy'n cyd-fynd a NCT 15 "Datblygu a'r Perygl o Lifogydd".

1.3 Cyflwynwyd yr wybodaeth isod er cefnogi'r cais :

- Asesiad canlyniadau llifogydd
- Manylion technegol y cyfarpar gwefru
- Gwerthusiad amgylcheddol cychwynnol

1.4 Cyfeiriwyd y cais hwn at y Pwyllgor Cynllunio gan y Pennaeth Amgylchedd.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 4 : TRAFNIDIAETH GYNALIADWY, DATBLYGIAD A HYGYRCHEDD

PS 5 : DATBLYGU CYNALIADWY

PS 6 : LLINIARU EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AC ADDASU IDDYNT

PS 7 : TECHNOLEG ADNEWYDDADWY

PS 19 : GWARCHOD A LLE BO’N BERTHNASOL GWELLA’R AMGYLCHEDD NATURIOL

PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU

PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE

PCYFF 4 : DYLUNIO A THIRWEDDU

TRA 1 : DATBLYGIADAU RHWYDWAITH CLUDIANT

TRA 4 : RHEOLI ARDRAWIAD CLUDIANT

TAI 1 : TAI YN Y GANOLFAN ISRANBARTHOL A’R CANOLFAN GWASANAETH TREFOL

ADN 3 : TECHNOLEG ADNEWYDDADWY A CHARBON ISEL ARALL

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)
Nodyn Cyngor Technegol 15 : Datblygu a Pherygl Llifogydd
Nodyn Cyngor Technegol 18 : Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C17/0429/03/LL : Cais i dynnu amod 5 o ganiatâd C16/1450/03/HT sy'n ymwneud a thirweddu - Caniatawyd 15/06/17

C16/1450/03/HT : Gosod polyn gyda 3 antenna i gyfanswm uchder o 20m, gosod un lloeren cyfathrebu ynghyd a gosod 3 cabinet offer, 1 cabinet yn cynnwys mesurydd gyda ffens 2m uchder yn amgylchynu.- Caniatawyd 04/04/17

C16/1136/03/LL : Codi adeilad newydd ynghyd a chreu mannau parcio cysylltiol ar gyfer Canolfan Tîm Achub a Chwilio De Eryri - Caniatawyd 17/10/16

## 4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref: Cytuno gyda'r egwyddor o greu safle gwefru bysiau trydan, ond yn gwrthwynebu'r lleoliad a gynhigir yn y cais cynllunio hwn am y rhesymau isod:

- mae rhieni yn defnyddio'r maes parcio cyn cerdded eu plant i'r ysgol gynradd yn ddiogel.
- byddai gwaredu'r maes parcio hwn yn creu sefyllfa anniogel i'r trigolion lleol sydd ei angen at ddefnydd yr ysgol, y capel ayyb.
- mae'r Cyngor Tref yn awyddus i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd i archwilio am safleoedd eraill mwy addas gerllaw

Uned Trafnidiaeth: Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau

Cyfoeth Naturiol Cymru: Sylwadau cychwynnol yn gofyn am Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLl - FCA). Fe gyflwynwyd ACLL wrth ystyried y cais ond sylwadau CNC ar y ddogfen heb eu derbyn eto.

Uned Bioamrywiaeth : Cytuno gyda chanfyddiadau'r Gwerthusiad Amgylcheddol Cychwynnol a gofyn am amodau yn ymwneud â :

- Dulliau gweithredu er diogelu ymlusgiaid ac ystlumod
- Gwarchod coed / gwrychoedd
- Datganiad Rheoli Adeiladu Amgylcheddol
- Rheoli rhywogaethau ymledol

Gwarchod y Cyhoedd : Heb eu derbyn

Adran Draenio Tir : Heb eu derbyn

Dŵr Cymru Heb eu derbyn

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle ac fe ymgynghorwyd gyda chymdogion. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd sylwadau'n gwrthwynebu'r datblygiad ar y seiliau cynllunio materol isod :

- Mae'r safle yn ardal barcio gymunedol ac angen ei amddiffyn a datblygu ar gyfer defnydd trigolion
- Mae pwysau ar ofod parcio yn lleol oherwydd Air B&Bs, ysgol, capel, stiwdio, cerddwyr ayyb.
- Fe fyddai'r cynllun yn achosi problemau traffig ac yn niweidiol i ddiogelwch y briffordd
- Fe fyddai'n amharu ar heddwch yr ardal
- Ni fyddai'r defnydd naws ddiwydiannol 24 awr y dydd yn gweddu gyda natur breswyl yr ardal ac fe fyddai'n niweidiol

i fwynderau preswyl

Derbyniwyd yn ogystal y sylwadau isod nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio materol :

- Pryder ynghylch gwastraff arian cyhoeddus
- Diffyg ymgynghoriad cymunedol ymlaen llaw
- Pryderon ynghylch hawl mynediad trwy'r safle i eiddo preifat gerllaw

Derbyniwyd yn ogystal gohebiaeth yn cefnogi'r cynllun fel caffaeliad i'r ardal.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y Datblygiad

5.1 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig yn yr achos yma. Mae safle'r cais wedi ei leoli y tu fewn i ffin ddatblygu Canolfan Gwasanaeth Trefol Blaenau Ffestiniog fel y'i diffinnir gan y CDLl ac mae rhan o'r safle ar dir wedi ei glustnodi fel safle ar gyfer tai.

5.2 Mae Polisi Strategol PS 5 : Datblygu Cynaliadwy'n ymrwymo'r Awdurdod Cynllunio i gefnogi datblygiadau ble gellid dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion cynaliadwy gan sicrhau bod cynlluniau'n lliniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny. Mae'r cynllun hwn, o ran ei natur, yn anelu'n benodol at leihau'r allyriadau carbon uniongyrchol a gynhyrchir drwy losgi tanwydd i yrru cerbydau cludiant cyhoeddus. Fe fyddai hefyd yn creu cyfleuster a fyddai'n cyfrannu tuag at greu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy a fyddai felly hefyd yn unol ag amcan polisi PS 4 y CDLl. Mae'r polisi hwnnw'n annog gwelliannau trafnidiaeth wedi eu hanelu at leihau'r angen i deithio mewn ceir preifat gan gynnwys gwella isadeiledd cludiant cyhoeddus lle mae'n briodol.

5.3 Mae polisi strategol arall, PS 7 : Technoleg Adnewyddadwy yn annog yr ACLl i sicrhau bod yr ardal yn arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel lle bynnag a bydd hynny'n ymarferol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi gosod cyfarpar y tu allan i ardaloedd sydd wedi eu dynodi oherwydd eu nodweddion tirwedd cyn belled nad ydyw'r cyfarpar yn achosi niwed sylweddol i faterion megis y dirwedd, bioamrywiaeth neu fwynderau preswyl. Yn yr un modd mae PS 6 : Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt, yn annog yr ACLl i ganiatáu cynigion sy'n defnyddio technolegau ynni carbon isel lle bo hynny'n ymarferol ac yn gweddu gyda'r amgylchedd o amgylch.

5.4 Wrth ystyried arweiniad y polisïau strategol uchod fe ystyrir bod y cynnig hwn yn gyson gyda gweledigaeth gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol ond bod rhaid asesu effaith lleol y datblygiad arfaethedig er sicrhau na fyddai'n creu niwed arwyddocaol i amgylchedd naturiol yr ardal nac i fwynderau trigolion lleol

**Mwynderau cyffredinol  a phreswyl**

5.5 Yn gyffredinol, mae polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn annog caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau newydd cyn belled na fyddent yn cael effaith niweidiol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol neu ar yr ardal yn gyffredinol.

5.6 Fe fyddai'r datblygiad hwn mewn lleoliad eithaf amlwg gerllaw'r brif ffordd sy'n cysylltu pentref Tanygrisiau gyda chefnffordd yr A470. Wedi dweud hynny mae hwn yn safle tir llwyd o fewn ffin ddatblygu sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio anffurfiol gyda rhannau wedi eu tarmacio. Fe fyddai'r datblygiad yn y bôn yn ffurfioli defnydd y safle trwy ei glirio ac ail wynebu ond fe fyddai hynny, yn anorfod, yn cael effaith weledol gan y byddai'r safle'n fwy amlwg, yn enwedig gan fod bwriad ei ehangu trwy dyllu i'r llethr ar yr ochr ddwyreiniol. Wedi dweud hynny, o sicrhau cynllun tirlunio priodol yn unol â pholisi PCYFF 4 y CDLl, fe gredir, wedi peth amser, gall y safle ymdoddi'n eithaf cyfforddus i'w leoliad yn enwedig wrth ystyried mai dim ond adeilad pren eithaf bychan a fwriedir ei godi fel adeilad parhaol.

5.7 Mae saith eiddo preswyl o fewn 50m i'r safle ac mae'n anorfod y byddai dwyshad mewn defnydd o'r safle yn cael peth effaith ar drigolion y tai hynny o safbwynt sŵn ac ymyrraeth cyffredinol. Ond wedi dweud hynny, wrth ystyried natur y safle, fe ellid dwysau ei ddefnydd fel maes parcio cyhoeddus heb yr angen am ganiatâd cynllunio ac fe all defnydd o'r fath gael effaith hyd yn oed yn fwy niweidiol ar fwynderau cymdogion. Yn yr achos hwn dim ond  nifer cyfyngedig o gerbydau a fyddai'n defnyddio'r safle ar un waith (uchafswm o 6 bws a 6 car) ac fe fyddai'r bysiau, oherwydd natur peiriannau gyriant trydan, yn llawer tawelach na bysiau cyffredin. Ni chredir felly y byddai'r defnydd bwriedig yma'n achosi niwed arwyddocaol i fwynderau preswyl o'i gymharu â'r hyn a allasai ddigwydd o adael y safle fel maes parcio cyhoeddus.

5.8 Yn gyffredinol, fe ystyrir bod trefniant y datblygiad arfaethedig yn gweddu'r lleoliad mewn modd derbyniol. Ni ystyrir y buasai'r newidiadau a gynhigir yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd mwynderol y safle na'r gymdogaeth leol o'i gymharu â'r hyn a fyddai'n gallu digwydd heb ganiatâd cynllunio ac o'r herwydd ystyrir bod  y datblygiad yn dderbyniol dan Bolisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y CDLl fel y maent yn ymwneud a'r materion hyn.

**Materion priffyrdd**

5.9 Nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth wrthwynebiad i'r cynnig. Fe nodwyd fod y bwriad yn cynnwys ffurfioli'r adwy gerbydol i mewn i'r depo drwy ddarparu cyffordd safonol, o faint ddigonol i ganiatáu cerbydau mawr droi i mewn ac allan yn ddi-rwystr. Fel rhan o'r dyluniad bwriedir cyflwyno palmant ar y radiws naill ochr mewn ffurf  sy'n ymwthio allan trwy'r encilfan presennol, at ymyl y ffordd. Mae'r dyluniad yn gwarchod y lleiniau gweledol ac yn atal unrhyw gerbydau rhag parcio ar draws y mynediad. Fe godwyd cwestiwn ynghylch ymarferoldeb defnyddio un o'r llecynnau gwefru ac awgrymwyd gwneud addasiadau i'r trefniant mewnol os yn angenrheidiol, fodd bynnag, yn ddarostyngedig ar amodau safonol, nid oes pryder ynghylch y cynnig o safbwynt yr effaith ar y rhwydwaith priffyrdd ac felly mae'r cynnig y dderbyniol dan bolisi TRA 4 y CDLl.

**Bioamrywiaeth**

5.10 Fe gyflwynwyd Gwerthusiad Ecolegol Cychwynnol gyda'r cais sy'n gosod cyfres o argymhellion ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth ar y safle. Fe roedd yr argymhellion yn dderbyniol gan yr Uned Bioamrywiaeth yn ddarostyngedig i amodau priodol ar unrhyw ganiatâd. Fe gredir felly bod y cynnig hwn hyn yn cwrdd gyda gofynion Polisi PS 19 y CDLL sy'n annog cynhigion i warchod, a lle bo'n briodol, gwella bioamrywiaeth yr ardal.

**Materion Llifogydd**

5.11 Gan fod y rhan fwyaf o'r safle o fewn parth llifogydd C2 fel y nodwyd gan Fapiau Perygl Llifogydd Llywodraeth Cymru dan NCT 15, mae'n rhaid asesu derbynioldeb y cynnig dan y polisi craidd hwnnw. Mae NCT 15 yn ei gwneud yn glir na ddylid caniatáu 'Datblygiad sy'n agored iawn i niwed', fel defnyddiau preswyl, ym mharth C2. Wedi dweud hynny, byddai'r datblygiad a gynhigir yma yn cael ei ystyried yn 'Ddatblygiad Llai Agored i Niwed' ac, o'r herwydd, gallai'r datblygiad fod yn dderbyniol yn amodol ar gyfres o brofion fel yr amlinellir yn NCT 15. Archwilir y profion hyn yn fyr isod.

Mae'r NCT yn nodi y dylid caniatáu Datblygiad Llai Agored i Niwed dim ond o fewn parthau C1 a C2 os yw'r Awdurdod Cynllunio yn penderfynu ei fod yn briodol yn y lleoliad hwnnw. Ni ellir cyfiawnhau datblygiad oni bai y gellir dangos: -

i. Bod ei leoliad ym mharth C yn angenrheidiol i gynorthwyo, neu i fod yn rhan o, fenter adfywio awdurdod lleol neu strategaeth awdurdod lleol sy'n ofynnol i gynnal anheddiad sy'n bodoli eisoes; neu,

ii Mae ei leoliad ym mharth C yn angenrheidiol i gyfrannu at amcanion cyflogaeth allweddol a gefnogir gan yr awdurdod lleol, a phartneriaid allweddol eraill, i gynnal anheddiad neu ranbarth sy'n bodoli eisoes;

**ac,**

iii Mae'n cyd-fynd â chanllawiau PCC (PPW) ac yn cwrdd â'r diffiniad o dir a ddatblygwyd o'r blaen (PPW ffig 2.1); ac,

iv Ystyriwyd canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd ar gyfer y math penodol o ddatblygiad, a gwelwyd eu bod yn dderbyniol.

5.12 Wrth edrych ar y profion hyn yn eu tro, fel yr eglurir yn 5.1 - 5.4 uchod, fe fyddai'r cynnig hwn yn cyd-ymffurfio gyda strategaeth ehangach y Cyngor Sir i hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg adnewyddadwy ac i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n llai dibynnol ar y defnydd o geir preifat. Yng ngoleuni'r polisïau hyn, ystyrir bod cyfiawnhad dan amcanion cynaliadwyedd yr awdurdod lleol i oresgyn maen prawf i.

5.13 O ran prawf iii, ystyrir bod y safle hwn yn dir a ddatblygwyd o'r blaen ac o'r herwydd mae'r cynnig yn dderbyniol dan y prawf hwn.

5.14 O safbwynt prawf iv. cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru bod angen paratoi Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar gyfer y datblygiad ac fe gyflwynwyd ACLl yn ystod y broses o ystyried y cais. Daeth yr asesiad hwnnw i'r casgliad na fyddai'r datblygiad yn cynyddu'r perygl o lifogydd i'r safle ei hun nac i dir cyfagos. Disgwylir ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ddogfen ac fe adroddir ymhellach ar y mater yn y Pwyllgor.

5.15 Yn gyffredinol, ac yn ddibynnol ar sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth ystyried natur y datblygiad o'i gymharu â defnydd blaenorol y safle ynghyd a'r gwaith ychwanegol a fwriedir fel rhan o'r cynllun draenio, ni ragwelir y byddai'r datblygiad yn debygol o gynyddu'r risg llifogydd ar y safle ac felly fe gredir bod y cynnig yn dderbyniol dan bolisi PS6 y CDLl a NCT 15.

**Materion eraill**

5.16 Mae rhan ddwyreiniol y safle hwn (oddeutu 500m$^2$ o'r 2250m$^2$) o fewn safle a ddynodwyd ar gyfer tai yn y CDLl. Wedi dweud hynny wrth ystyried maint y dynodiad tai o thua 28,000m2 (ar gyfer 95 tŷ), a'r ffaith nad oes unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei roi er gwaetha'r dynodiad ar gyfer tai yn y CDLl yn 2011. Ni chredir y byddai caniatáu'r cais hwn yn cael effaith arwyddocaol ar gyflenwi tai yn unol â pholisi TAI 1 dros oes y cynllun datblygu.

5.17 Fe godwyd pryder ynghylch effaith colli'r safle hwn ar gyfer parcio cymunedol, fodd bynnag parcio anffurfiol sy'n digwydd ar y safle ac nid ydyw'n faes parcio cyhoeddus swyddogol ac felly nid oes unrhyw sicrwydd fod y safle hwn am fod ar gael ar gyfer parcio yn y dyfodol. Roedd materion parcio'n ffurfio rhan o ystyriaeth yr Uned Trafnidiaeth o'r cynllun a drafodir uchod ond nid oedd ganddynt wrthwynebiad i'r cynnig.

5.18 Fe dderbyniwyd nifer o sylwadau'n cwestiynu'r dewis hwn o safle ar gyfer y datblygiad gan awgrymu bod safleoedd gwell ar gael yn lleol, fodd bynnag mae'n ofynnol i'r ACLl ystyried pob cais cynllunio ar ei rinweddau ei hun a'r safle hwn yn unig sydd dan ystyriaeth yn yr achos yma.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ganlyniad i'r asesiad uchod, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i unrhyw bolisi cynllunio perthnasol o fewn y CDLl a bod y datblygiad a gynhigir yn briodol ar gyfer y safle ac fe fyddai'n helpu gwireddu amcan o bwysigrwydd strategol i'r Cyngor Sir. Fe ystyriwyd yr holl ystyriaethau cynllunio materol a ni chredir fod y bwriad yn debygol o achosi effeithiau andwyol annerbyniol i drigolion gerllaw na'r gymuned yn gyffredinol.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol Amgylchedd i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig ar dderbyn sylwadau cadarnhaol oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru'n ymwneud â'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd:

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda'r cynlluniau
3. Amodau priffyrdd
4. Amodau Tirlunio

5. Rhaid gweithredu'n unol a'r r Gwerthusiad Amgylcheddol Cychwynnol
6. Rhaid cyflwyno Datganiad Rheoli Adeiladu Amgylcheddol
7. Amodau Bioamrywiaeth eraill
8. Unrhyw amodau angenrheidiol i gwrdd â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymwneud â lliniaru effeithiau llifogydd
9. Rhaid cytuno manylion unrhyw gynllun ar gyfer goleuo neu gamerâu cylch cyfyng

<u>Nodiadau</u>

1. Priffyrdd
2. Cyfoeth Naturiol Cymru